# Canllawiau i sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol

Canllaw i sefydliadau ar sut i wneud cais i gael eu cynnwys ar restr Llywodraeth Cymru o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol

# Cynnwys

**Cyflwyniad** **2**
**Cyd-destun statudol** **3**
**Proses** **5**
**Gwneud cais i gael eich cynnwys ar restr Llywodraeth Cymru o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol (ISPIs) a'r trefniadau yn yr ISPI** **14**
**Cais i wneud newid i drefniadau** **21**

## Cyflwyniad

1. Diben y ddogfen hon yw amlinellu, er lles partïon â buddiant, y broses y gall sefydliadau ei defnyddio i wneud cais i gael eu cynnwys ar y rhestr o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol (ISPI), a gynhelir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r broses hon yn disodli'r broses y gall sefydliadau addysg bellach (AB) arbenigol ei defnyddio i lunio cytundeb ariannu gyda Llywodraeth Cymru er mwyn cael mynediad at leoliadau a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

2. Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("y Ddeddf") yn creu fframwaith statudol newydd ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Bydd y Ddeddf hon yn disodli deddfwriaeth yn ymwneud ag anghenion addysgol arbennig (AAA) ac asesu plant a phobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu) mewn addysg a hyfforddiant ôl-16. O dan y Ddeddf, bydd awdurdodau lleol yng Nghymru yn gyfrifol am sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer pobl ifanc hyd at 25 oed gydag ADY. Mae hyn yn cynnwys dyletswydd ar awdurdodau lleol i baratoi a chynnal cynllun datblygu unigol ('CDU') ar gyfer person ifanc ag ADY nad yw mewn ysgol neu sefydliad addysg bellach prif ffrwd, lle mae'r awdurdod lleol yn penderfynu bod hynny'n angenrheidiol er mwyn diwallu ei anghenion rhesymol am addysg a hyfforddiant, yn unol â rheoliadau[1]. Mae hyn yn disodli'r rôl a gyflawnwyd yn flaenorol gan Weinidogion Cymru (yn unol â'u swyddogaethau o dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000) i sicrhau lleoliadau addysg ôl-16 arbenigol ar gyfer dysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu.

3. Mae'r Ddeddf yn nodi bod rhaid i Weinidogion Cymru sefydlu a chynnal rhestr o ISPIs yng Nghymru a Lloegr. Mae awdurdodau lleol ond yn gallu sicrhau darpariaeth addysg neu hyfforddiant i bobl ifanc ag ADY mewn ISPI os ydynt wedi'u cynnwys ar y rhestr.

4. Yn unol â'r Ddeddf, mae Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Rhestr o Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol) (Cymru) 2019 ("*Rheoliadau ISPI*") yn darparu, ymysg pethau eraill, y gofynion i fod ar y rhestr. Dylid darllen y rheoliadau ISPI ochr yn ochr â'r canllawiau hyn.

5. Derbyniodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol ym mis Ionawr 2018. Disgwylir i'r system ADY newydd gychwyn, fesul cam, o fis Medi 2021. Fodd bynnag, er mwyn rhoi amser i sefydliadau AB arbenigol presennol wneud cais i fod ar y rhestr hon cyn i'r Ddeddf ddod i rym, bydd y rheoliadau ISPI, ynghyd â'r canllawiau hyn, yn dod i rym ar 4 Ionawr 2021.

[1] I'w wneud o dan adran 46 o'r Ddeddf

## Cyd-destun statudol

6. O dan adran 2 o'r Ddeddf, ystyrir bod gan berson ADY os oes ganddo anhawster neu anabledd dysgu (waeth a yw'r anhawster neu'r anabledd dysgu yn deillio o gyflwr meddygol ai peidio) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDY).

7. Mae gan blentyn o oedran ysgol gorfodol neu berson dros yr oedran hwnnw anhawster neu anabledd dysgu:
(a) os yw'n cael llawer mwy o anhawster i ddysgu na'r rhan fwyaf o blant eraill yr un oedran, neu
(b) os oes ganddo anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n ei atal rhag defnyddio cyfleusterau ar gyfer addysg neu hyfforddiant a ddarperir fel arfer i eraill o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach.

8. Mewn perthynas â pherson ifanc, mae DDY yn golygu darpariaeth addysgol neu hyfforddiant sy'n ychwanegol neu'n wahanol i'r ddarpariaeth a wneir fel arfer ar gyfer eraill o'r un oedran mewn ysgol prif ffrwd yng Nghymru neu sefydliad prif ffrwd mewn sector addysg bellach yng Nghymru.

9. Mae swyddogaethau awdurdodau lleol mewn perthynas â sicrhau darpariaeth addysgol i ddysgwyr ag ADY, gan gynnwys y rhai mewn ISPIs, wedi'u nodi yn y Ddeddf.

10. Yn gryno, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd[2] i baratoi a chynnal cynllun datblygu unigol (CDU) ar gyfer person ifanc y maent yn penderfynu bod hynny'n angenrheidiol yn unol â rheoliadau[3] er mwyn diwallu ei anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant. Os nad oes modd diwallu anghenion rhesymol person ifanc oni bai bod awdurdod lleol yn mynd ati hefyd i sicrhau lle mewn ysgol benodol neu sefydliad arall, neu fwyd a llety, rhaid i'r awdurdod gynnwys disgrifiad o'r ddarpariaeth honno yn y CDU.

11. Mae'r Ddeddf yn amlinellu'r gofyniad cyfreithiol ar i Weinidogion Cymru gyhoeddi a chynnal rhestr o ISPIs ac yn mynnu eu bod yn cyhoeddi rheoliadau sy'n darparu:

    (a) cynnwys y rhestr;
    (b) gofynion i gydymffurfio â nhw fel amod o gael eu cynnwys ar y rhestr;
    (c) gofynion i gydymffurfio â nhw tra bod y sefydliad ar y rhestr (gan gynnwys gofynion ar gyfer cydymffurfiaeth gan Weinidogion Cymru â threfniadau yn y sefydliad a newid trefniadau o'r fath);

[2] O dan adran 14 o'r Ddeddf
[3] I'w gwneud o dan adran 46 o'r Ddeddf

(d) tynnu’r sefydliad o’r rhestr;
(e) hawliau apelio i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf ar gyfer perchnogion sefydliadau yn erbyn penderfyniadau a wneir gan Weinidogion Cymru yn unol â’r rheoliadau (gweler adran 56 o’r Ddeddf)

12. Mae’r rheoliadau ISPI yn darparu ar gyfer y gofynion hynny.

13. Dim ond os yw’r sefydliad wedi’i gynnwys ar y rhestr y gall awdurdod lleol sicrhau addysg neu hyfforddiant ar gyfer plentyn neu berson ifanc mewn ISPI yng Nghymru neu yn Lloegr. Mae ISPI wedi’i ddiffinio yn y Ddeddf fel sefydliad sy’n darparu addysg neu hyfforddiant i bobl dros oedran ysgol gorfodol ac sydd wedi’i drefnu’n arbennig i ddarparu addysg neu hyfforddiant i bobl ag ADY. Fodd bynnag, ni all y sefydliad fod yn:

(a) sefydliad yn y sector addysg bellach;
(b) ysgol annibynnol sydd wedi’i chynnwys yn y gofrestr o ysgolion annibynnol yng Nghymru;
(c) sefydliad addysgol annibynnol sydd wedi’i gynnwys yn y gofrestr o sefydliadau addysgol annibynnol yn Lloegr; neu
(d) Academi 16 i 19.

## Proses

**Ar gyfer pwy mae'r broses?**

14. Mae'r broses hon ar gyfer y sefydliadau hynny sydd eisiau darparu addysg a hyfforddiant ôl-16 i bobl ifanc ag ADY. Os yw'r sefydliad hwnnw yn dymuno sicrhau lleoliadau a ariennir gan awdurdod lleol yn ei leoliad, bydd angen iddo wneud cais i Lywodraeth Cymru i fod ar y rhestr o ISPIs ('y rhestr').

15. Nid yw'r broses hon yn berthnasol i'r sefydliadau arbenigol hynny, megis ysgolion arbennig ac ysgolion 'arbennig' annibynnol, sydd ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig hyd at 19 oed.

16. Lle mae dau sefydliad neu fwy yn cael eu rhedeg o dan un rhiant-gwmni, bydd angen i bob sefydliad sy'n bwriadu derbyn lleoliadau a ariennir gan awdurdod lleol gael ei enwi ar y rhestr.

**Gwneud cais am gymeradwyaeth o drefniadau yn yr ISPI ac i gael eu cynnwys ar y rhestr**

17. Lle mae sefydliad yn ceisio derbyn lleoliadau a ariennir gan awdurdod lleol, bydd angen iddo wneud cais i Lywodraeth Cymru i gael ei enwi ar y rhestr ac i gael cymeradwyaeth o'i drefniadau. Gellir gwneud ceisiadau i Lywodraeth Cymru ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn.

18. Wrth ystyried pryd i gyflwyno cais i gael ei gynnwys ar y rhestr, dylai'r sefydliad ystyried y canllawiau hyn yn unol â'r rheoliadau ISPI. Dylai sefydliadau fod yn ystyriol hefyd o'r broses a'r amserlenni sy'n gysylltiedig ag ystyried cais. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud ei gorau glas i wneud penderfyniad ar gais sefydliad i gael ei gynnwys ar y rhestr cyn gynted â phosibl. Disgwylir y bydd y broses hon yn cymryd tua thri mis, yn dibynnu ar ansawdd y cais a dderbynnir ac ystyriaeth o ffynonellau gwybodaeth eraill yn ymwneud â'r darpar ISPI.

19. Ni ellir sicrhau lleoliadau mewn darpar ISPI hyd nes y bydd y lleoliad wedi'i gynnwys ar y rhestr. Efallai y bydd awdurdodau lleol yn dewis cynnal eu gwiriadau eu hunain o'r ISPI, ac efallai y byddant eisiau llunio cytundebau ariannu gydag ISPIs cyn ariannu lleoliadau unigol.

20. Dylai ceisiadau i gael eu cynnwys ar y rhestr gael eu hanfon i'r cyfeiriad canlynol:

    Anghenion Dysgu Ychwanegol Ôl-16
    Llywodraeth Cymru
    Adeiladau'r Goron
    Parc Cathays

Caerdydd
CF10 3NQ

neu mewn e-bost i Post16ALN@gov.wales

21. Ar ôl ystyried y cais, bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at yr ISPI i gadarnhau'r canlyniad. Os na fydd y cais yn llwyddiannus, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r rhesymau ac yn darparu gwybodaeth am yr hawliau i apelio yn erbyn y penderfyniad (gweler yr adran ar yr hawl i apelio). Os bydd y cais yn llwyddiannus, bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cadarnhad y caiff y sefydliad ei gynnwys ar y rhestr a gyhoeddir.

**Gofynion ar gyfer cymeradwyo trefniadau ac i gael eu cynnwys ar y rhestr**

22. Er mwyn i'r trefniadau gael eu cymeradwyo ac er mwyn i'r ISPI gael ei gynnwys ar y rhestr, rhaid i'r perchennog ddarparu'r wybodaeth ganlynol fel rhan o'i gais:
    - Y trefniadau yn yr ISPI;
    - Gwybodaeth gyffredinol am yr ISPI;
    - Tystiolaeth bod yn sefydliad yn hyfyw yn ariannol;
    - Tystiolaeth o'r DDY o safon y bydd yn ei darparu i bobl ifanc ag ADY.

23. Mae ffurflen gais ar gael yn Atodiad A sy'n amlinellu'r wybodaeth sy'n ofynnol wrth ddarparu gwybodaeth gyffredinol ac ar gyfer cymeradwyo'r trefniadau yn yr ISPI. Er mwyn i'r trefniadau gael eu hystyried i'w cymeradwyo, rhaid i'r ISPI gynnwys gwybodaeth am:
    - ystod oedran y bobl y mae'r ISPI ar eu cyfer;
    - y nifer mwyaf o bobl y mae'r ISPI ar eu cyfer;
    - perchennog yr ISPI;
    - y math o DDY a ddarperir gan yr ISPI.

24. Rhaid i'r trefniadau yn yr ISPI gael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn unol â'r rheoliadau ISPI (rheoliad 4). Mae modd apelio yn erbyn penderfyniad Llywodraeth Cymru ynghylch y trefniadau mewn ISPI (gweler yr adran ar yr hawl i apelio).

25. Bydd angen i'r ISPI ddarparu dogfennaeth ariannol i gefnogi'r cais er mwyn bodloni Llywodraeth Cymru ei fod yn hyfyw yn ariannol. Dylai'r ddogfennaeth gynnwys:
    - Datganiadau ariannol wedi'u harchwilio ar gyfer y 2 flynedd diwethaf; neu
    - Ar gyfer sefydliad nad yw wedi paratoi ei gyfres gyntaf o gyfrifon blynyddol hyd yma, cynllun busnes wedi'i gostio sy'n cynnwys 12 mis o ragolygon incwm a gwariant, rhagolwg o lif arian parod, mantolen ragamcanol ac esboniad o'r rhagdybiaethau a wnaed ar gyfer y ffigurau a ddarparwyd.

26. Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio’r wybodaeth yn y ffurflen gais, y wybodaeth ariannol ategol ac unrhyw ffynonellau eraill sydd ar gael i gynnal gwiriad iechyd ariannol.

27. Bydd hefyd angen i’r ISPI ddarparu gwybodaeth am ansawdd y DDY y mae’n ei darparu. Mae hyn yn ei gwneud hi’n ofynnol i ISPIs ddarparu i Lywodraeth Cymru adroddiadau yn ymwneud â’r ISPI a ddarperir gan Estyn (ar gyfer y sefydliadau hynny yng Nghymru) ac Ofsted (ar gyfer y sefydliadau hynny yn Lloegr). Gall Llywodraeth Cymru ofyn i’r ISPI am fwy o wybodaeth am yr adroddiadau hyn. Gall hyn ddigwydd pan fo’r arolygiaeth wedi gwneud argymhellion mewn perthynas â chamau i fynd i’r afael â safonau.

28. Os nad yw adroddiad ar gael am unrhyw reswm, er enghraifft, os nad yw sefydliad newydd wedi derbyn arolygiad o’r addysg y mae’n ei darparu, gall Llywodraeth Cymru ystyried unrhyw dystiolaeth arall yr ystyrir ei bod yn briodol mewn perthynas ag ansawdd y ddarpariaeth addysgol, gan gynnwys DDY, a gynigir gan yr ISPI. Gallai hyn gynnwys ofyn i’r arolygiaeth ymweld â’r ISPI hwnnw.

29. Os yw sefydliad yn darparu, neu’n cynnig darparu, llety preswyl mewn perthynas â’r cynnig addysg bellach bwriedig, rhaid iddo sicrhau bod y sefydliad wedi cofrestru naill ai gydag Arolygiaeth Gofal Cymru[4] (AGC) neu gyda’r Comisiwn Ansawdd Gofal[5] (CQC). Bydd angen i’r ISPI ddarparu ei rif cofrestru AGC neu’r CQC fel rhan o’r cais i fod ar y rhestr. Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio’r wybodaeth hon wrth gysylltu ag AGC neu’r CQC i drafod addasrwydd y llety preswyl sydd ar gael. Mae’n bosibl y byddai AGC neu’r CQC eisiau ymweld â’r sefydliad fel rhan o’r broses; os felly, byddant yn gwneud trefniadau i ymweld â’r sefydliad i asesu’r ddarpariaeth fel y nodwyd yn y cais.

30. Lle bo angen mwy o eglurder neu wybodaeth, bydd Llywodraeth Cymru yn cysylltu â’r sefydliad yn uniongyrchol. Os bydd Llywodraeth Cymru yn fodlon bod yr holl wybodaeth angenrheidiol wedi’i darparu, bydd y cais yn cael ei ystyried yn unol â hynny.

31. Gall y wybodaeth yn y cais a’r dogfennau ategol gael ei rhannu â’r arolygiaeth addysg berthnasol. Yn achos ISPI yng Nghymru, bydd Llywodraeth Cymru yn anfon y cais ymlaen i Estyn a fydd yn ystyried y cais ac yn darparu argymhelliad

[4] Mae AGC yn gyfrifol am arolygu a rheoleiddio gofal plant, gofal cymdeithasol a gofal nad yw'n ymwneud ag iechyd i oedolion a phlant, yn ogystal â gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae’r arolygiaeth yn cyflawni eu swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru. Felly mae rheoliadau ISPI yn cyfeirio at Weinidogion Cymru yn y cyd-destun hwn.
Mae mwy o wybodaeth am gofrestru ar gael ar wefan AGC*:*
https://arolygiaethgofal.cymru

[5] Mae mwy o wybodaeth am gofrestru ar gael ar wefan y CQC*:*
http://www.cqc.org.uk/content/what-registration

i Lywodraeth Cymru ar a yw'r sefydliad yn addas i'w gynnwys ar y rhestr. Ar gyfer ISPI yn Lloegr, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried canfyddiadau adroddiad diweddaraf Ofsted. Os bydd sefydliad newydd yn cael ei sefydlu yn Lloegr, bydd angen iddo gael ei restru o dan adran 41 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014. Mewn unrhyw achos, gall yr arolygiaeth addysg bennu bod angen ymweld â'r sefydliad i asesu'r ddarpariaeth fel y nodwyd yn y cais, neu efallai y bydd yn fodlon darparu argymhelliad yn seiliedig ar ymweliadau blaenorol â'r sefydliad ac unrhyw adroddiadau dilynol.

**Gofynion i gydymffurfio â nhw tra bod yr ISPI wedi'i gynnwys ar y rhestr**

32. Rhaid bod gan Lywodraeth Cymru hyder yn y ddarpariaeth sydd ar gael yn unrhyw ISPI sydd wedi'i gynnwys ar y rhestr. Felly, bydd pob ISPI yng Nghymru yn destun adolygiad blynyddol gan Estyn. Gall hyn fod ar ffurf ymweliad monitro. Bydd yr ISPIs hynny yn Lloegr yn amodol ar arolygiaeth a system fonitro Ofsted.

33. I sicrhau bod ISPI yn gallu aros ar y rhestr, bydd hi'n ofynnol iddo ddarparu'r wybodaeth ganlynol ar gais Llywodraeth Cymru:
    - Tystiolaeth bod y sefydliad yn hyfyw yn ariannol;
    - Yr adroddiadau diweddaraf yn ymwneud â'r ISPI gan yr arolygiaeth addysg berthnasol (Estyn neu Ofsted) a'r arolygiaeth gofal (os oes angen);
    - Unrhyw wybodaeth arall am y ddarpariaeth addysg neu reolaeth neu lywodraethiant yr ISPI.

34. Unwaith y bydd ar y rhestr, nid yw'n ofynnol i ISPI ddarparu cyfrifon ariannol blynyddol parhaus i fodloni Llywodraeth Cymru ynglŷn â'i hyfywedd ariannol. Fodd bynnag, ar gais, bydd angen i'r ISPI ddarparu dogfennaeth ariannol i Lywodraeth Cymru. Bydd cais o'r fath yn cael ei bennu trwy ddull seiliedig ar risg ac yn cynnwys ystyriaeth o'r bobl ifanc yn yr ISPS a/neu bryderon ariannol neu lywodraethu a nodwyd. Yr un fath â'r gofynion i wneud cais i fod ar y rhestr, bydd y wybodaeth y gofynnir amdani ar ffurf datganiadau ariannol wedi'u harchwilio neu, os nad yw ISPI wedi paratoi ei gyfres gyntaf o gyfrifon blynyddol hyd yma, cynllun busnes wedi'i gostio sy'n cynnwys 12 mis o ragolygon incwm a gwariant, rhagolwg o lif arian parod, mantolen ragamcanol ac esboniad o'r rhagdybiaethau a wnaed ar gyfer y ffigurau a ddarparwyd.

35. Ar gais, bydd hi'n ofynnol i ISPIs gyflwyno i Lywodraeth Cymru eu hadroddiadau diweddaraf gan Estyn neu Ofsted a gan AGC/CQC os oes angen. Gall hyn fod er mwyn deall y darlun diweddaraf o'r ddarpariaeth addysgol a gynigir gan yr ISPI, gan gynnwys ei DDY. Yr un fath â'r gofynion i wneud cais i fod ar y rhestr, os na fydd adroddiad ar gael am unrhyw reswm, gall Llywodraeth Cymru ystyried unrhyw dystiolaeth arall yr ystyrir ei bod yn briodol mewn perthynas ag ansawdd y ddarpariaeth addysgol a gynigir gan yr ISPI. Fel mater o arfer da, byddai

Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ISPI ddarparu ei adroddiad diweddaraf iddi unwaith y bydd hwnnw ar gael.

36. Gall Llywodraeth Cymru fynd ati unrhyw bryd i wneud cais am wybodaeth am y ddarpariaeth addysg neu reolaeth neu lywodraethiant yr ISPI. Byddai hyn yn debygol lle bo adroddiad yr ISPI wedi nodi unrhyw ddiffygion mewn safonau a lle bo camau wedi'u hargymell i fynd i'r afael â'r rhain.

**Newidiadau i drefniadau**

37. Gall perchennog yr ISPI fynd ati unrhyw bryd i gyflwyno cais i Lywodraeth Cymru i wneud newidiadau i'r trefniadau yn yr ISPI (mae paragraffau 23 a 24 yn cyfeirio at y trefniadau). Rhaid i gais i wneud newid i drefniadau gael ei gyflwyno yn ysgrifenedig i Lywodraeth Cymru.

38. Yn unol â hynny, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ceisiadau i wneud newidiadau i drefniadau. Wrth wneud hynny, gallant ofyn am farn yr arolygiaeth berthnasol cyn gwneud penderfyniad. Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio gwneud penderfyniad o fewn 8 wythnos.

39. Cyn i'r penderfyniad gael ei wneud, bydd y trefniadau presennol y cytunwyd arnynt ar gyfer yr ISPI yn parhau i fod mewn grym.

40. Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at yr ISPI i gadarnhau'r canlyniad. Os na fydd y cais yn llwyddiannus, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r rhesymau ac yn darparu gwybodaeth am yr hawliau i apelio yn erbyn y penderfyniad (gweler yr adran ar yr hawl i apelio). Oni nodir yn wahanol, bydd yr hysbysiad bod y newid wedi'i gymeradwyo yn cael ei gyhoeddi ar unwaith, a bydd y rhestr yn cael ei diweddaru yn unol â hynny.

41. Dylai ceisiadau i wneud newidiadau i drefniadau gael eu hanfon mewn e-bost i Post16ALN@gov.wales

**Cais gan berchennog i dynnu'r ISPI oddi ar y rhestr**

42. Gall perchennog ISPI gyflwyno cais i Lywodraeth Cymru i dynnu'r ISPI oddi ar y rhestr. Rhaid i gais i dynnu ISPI oddi ar y rhestr gael ei wneud yn ysgrifenedig i Lywodraeth Cymru, a rhaid iddo nodi dyddiad o leiaf 28 diwrnod ar ôl dyddiad y cais. Bydd Llywodraeth Cymru yn cytuno i dynnu'r ISPI a nodir yn y cais oddi ar y rhestr neu'n cytuno ar ddyddiad arall a gytunir gyda'r perchennog. Gall hyn ddigwydd mewn achosion lle ystyrir y byddai'n fwy addas i'r ISPI gael ei dynnu oddi ar y rhestr yn ddiweddarach neu'n gynt nag a nodwyd yn y cais. Er enghraifft, efallai y byddai'n fwy addas i ISPI gael ei dynnu oddi ar y rhestr ar ddiwedd tymor coleg i alluogi pobl ifanc sydd wedi'u lleoli yno i gwblhau elfennau o'u rhaglen astudio. Os bydd gan y perchennog ddysgwyr a ariennir gan

Lywodraeth Cymru wedi'u lleoli yn ei leoliad, byddem yn disgwyl i'r perchennog fod eisoes wedi ymgysylltu â'r awdurdod lleol i roi gwybod am ei fwriadau cyn i'r cais i dynnu oddi ar y rhestr gael ei gyflwyno.

43. Ar ôl derbyn cais i dynnu'r ISPI oddi ar y rhestr, bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud pob ymdrech i ymateb cyn gynted ag y bo modd.

44. Ar ôl cytuno ar y dyddiad, rhaid i Lywodraeth Cymru roi gwybod i bob awdurdod lleol yng Nghymru am y dyddiad y bydd yr ISPI yn cael ei dynnu oddi ar y rhestr. Gall Llywodraeth Cymru benderfynu hefyd ysgrifennu at bobl berthnasol eraill i roi gwybod iddynt am y dyddiad y bydd yr ISPI yn cael ei dynnu oddi ar y rhestr. Wrth ysgrifennu at bob awdurdod lleol yng Nghymru, bydd Llywodraeth Cymru yn esbonio'r rhesymau dros dynnu'r ISPI oddi ar y rhestr.

**Tynnu ISPI oddi ar y rhestr**

45. Mae gan Lywodraeth Cymru y pŵer i dynnu ISPI oddi ar y rhestr ar sail y canlynol:
- Tystiolaeth yn ymwneud â hyfywedd ariannol yr ISPI
- Unrhyw adroddiadau yn ymwneud â'r ISPI
- Unrhyw bryderon difrifol am yr ISPI a dderbyniwyd gan awdurdod lleol, person ifanc neu unrhyw berson arall

46. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yn ofalus a ddylid tynnu ISPI oddi ar y rhestr. Nid ar chwarae bach y penderfynir tynnu ISPI oddi ar y rhestr, a bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth lawn i'r effaith ar bobl ifanc a ariennir gan yr ISPI. Unrhyw bryd, mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn fodlon bod yr ISPI yn hyfyw yn ariannol ac yn gallu darparu DDY briodol. Bydd Llywodraeth Cymru eisiau bod yn fodlon hefyd fod trefniadau diogelu priodol ar waith ar gyfer pobl ifanc agored i niwed sydd wedi ymrestru yn yr ISPI. Bydd unrhyw bryderon difrifol, megis materion diogelu a gaiff eu dwyn i sylw Llywodraeth Cymru, yn cael eu hystyried ar unwaith.

47. Nid oes amserlen benodol ar gyfer ystyried a ddylid tynnu ISPI oddi ar y rhestr, gan y bydd pob achos yn amrywio'n ôl y pryderon. Fodd bynnag, bydd pob sefyllfa'n cael ei hystyried ar sail pob achos.

48. Pan fo Llywodraeth Cymru yn penderfynu tynnu ISPI oddi ar y rhestr, bydd hi'n ofynnol iddi roi gwybod i'r perchennog am y penderfyniad hwnnw. Wrth wneud hynny, bydd Llywodraeth Cymru yn esbonio'r rhesymau pam y mae wedi penderfynu tynnu'r ISPI oddi ar y rhestr ac yn darparu gwybodaeth am yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad (gweler yr adran ar yr hawl i apelio).

49. Rhaid i Lywodraeth Cymru roi gwybod i bob awdurdod lleol yng Nghymru am ei benderfyniad, a bydd yn gwneud hynny yr un pryd ag y bydd yn rhoi gwybod i'r ISPI. Gall Llywodraeth Cymru benderfynu hefyd ysgrifennu at bobl berthnasol eraill i roi gwybod iddynt am ei phenderfyniad i dynnu'r ISPI oddi ar y rhestr. Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at bob awdurdod lleol yng Nghymru i esbonio'r rhesymau dros ei phenderfyniad ac i nodi bod gan yr ISPI yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ysgrifennu at awdurdodau lleol i roi gwybod iddynt pan fydd ISPI wedi cyflwyno apêl (fel sy'n berthnasol). Yn yr un modd, bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at yr awdurdod lleol i roi gwybod iddo am ganlyniad yr apêl honno cyn gynted ag y bydd wedi rhoi gwybod i'r ISPI am y canlyniad.

50. Os bydd y perchennog yn penderfynu apelio yn erbyn penderfyniad i dynnu'r ISPI oddi ar y rhestr, bydd yr ISPI yn cael ei dynnu oddi ar y rhestr yn unol â'r darpariaethau yn y rheoliadau ISPI o dan yr hawl i apelio (rheoliad 9) a phenderfynu ar apêl (rheoliad 10).

51. Os na fydd y perchennog yn apelio, bydd y penderfyniad i dynnu'r ISPI oddi ar y rhestr yn dod i rym 28 diwrnod ar ôl yr hysbysiad o benderfyniad Llywodraeth Cymru. Mae'r amserlen hon yn ystyried y cyfnod o 28 diwrnod pan all perchennog ISPI apelio yn erbyn penderfyniad gan Lywodraeth Cymru i dynnu'r ISPI oddi ar y rhestr.

**Yr hawl i apelio**

52. Gall perchennog ISPI gyflwyno apêl i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf yn erbyn penderfyniad:
    a) i wrthod rhestru ISPI;
    b) i dynnu ISPI oddi ar y rhestr;
    c) i beidio â chymeradwyo trefniadau yn yr ISPI; neu
    d) i beidio â chymeradwyo newid i drefniadau yn yr ISPI.

53. Wrth roi gwybod i berchennog ISPI am benderfyniad a amlinellir uchod, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i'r perchennog am ei hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw. Rhaid cyflwyno apêl o fewn 28 diwrnod i'r hysbysiad o'r penderfyniad hwnnw.

54. Pan fo perchennog yn apelio yn erbyn penderfyniad i dynnu ISPI oddi ar y rhestr, dim ond os bydd y Tribiwnlys yn cymeradwyo'r penderfyniad y gall Llywodraeth Cymru dynnu'r ISPI oddi ar y rhestr. Yn ogystal, gall Llywodraeth Cymru dynnu'r ISPI oddi ar y rhestr os bydd yr apêl yn cael ei thynnu'n ôl neu ei dileu cyn i'r Tribiwnlys benderfynu arni. Mae gan y Tribiwnlys y pŵer ar unrhyw adeg yn ystod apêl o'r fath i ystyried nad yw'r ISPI wedi'i gynnwys ar y rhestr hyd nes y bydd wedi penderfynu ar yr apêl. Byddai'r amgylchiadau hyn ond yn berthnasol pe bai'r Tribiwnlys yn teimlo bod risg o niwed difrifol i les pobl ifanc sydd wedi ymrestru yn yr ISPI.

55. Dylai apelau gael eu cyflwyno i:

Tribiwnlys yr Haen Gyntaf
Gwasanaethau Tribiwnlysoedd
Tribiwnlys Safonau Gofal/Care Standard Tribunal
Mowden Hall
Staindrop Road
Darlington
Durham
DL3 9BG

Ffôn: 01325 392712
E-bost: CST@tribunals.gsi.gov.uk

56. Pe byddai apêl yn cael ei chyflwyno i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf yn erbyn tynnu ISPI oddi ar y rhestr, dylai'r perchennog roi gwybod i Lywodraeth Cymru. Ac o wneud hynny, bydd Llywodraeth Cymru yn hysbysu'r awdurdodau lleol am yr apêl yn erbyn y penderfyniad.

57. Wrth benderfynu ar apêl, mae gan y Tribiwnlys y pŵer i wneud rhai penderfyniadau yn dibynnu ar sail yr apêl. Yn achos apêl yn erbyn penderfyniad i beidio â chymeradwyo trefniadau neu i beidio â chymeradwyo newid i drefniadau, gall y Tribiwnlys naill ai gymeradwyo'r penderfyniad i beidio â chydymffurfio, neu gymeradwyo newid ei hun.

58. Yn achos apêl yn erbyn penderfyniad i wrthod cynnwys yr ISPI ar y rhestr, gall y Tribiwnlys naill ai dderbyn y penderfyniad neu gyfarwyddo Gweinidogion Cymru i gynnwys yr ISPI ar y rhestr.

59. Yn achos apêl yn erbyn penderfyniad i dynnu ISPI oddi ar y rhestr, gall y Tribiwnlys dderbyn y penderfyniad neu ddiddymu'r penderfyniad. Os bydd y Tribiwnlys yn derbyn y penderfyniad, rhaid i Lywodraeth Cymru dynnu'r ISPI oddi ar y rhestr ar y dyddiad a nodir yng ngorchymyn y Tribiwnlys. Os na fydd y Tribiwnlys yn nodi dyddiad yn ei orchymyn, gall Gweinidogion Cymru bennu'r dyddiad y bydd yr ISPI yn cael ei dynnu oddi ar y rhestr. O wneud hynny, bydd Llywodraeth Cymru yn hysbysu'r awdurdodau lleol am ganlyniad penderfyniad yr apêl.

**Gwybodaeth ychwanegol**

- Cylchlythyr 009/2014 Diogelu Plant mewn Addysg: Ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill
  https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-11/diogelu-plant-mewn-addysg-ymdrin-a-honiadau-o-gam-drin-yn-erbyn-athrawon-a-staff-eraill.pdf

- Cylchlythyr 34/02 Amddiffyn Plant: Atal pobl anaddas rhag gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn y gwasanaeth addysg
  https://llyw.cymru/addysg-a-sgiliau

- Cod Ymarfer Iechyd a Diogelwch Llywodraeth Cymru ar gyfer Darpariaeth dan Gontract
  www.wales.gov.uk/healthandsafety

- Canllawiau Hunanasesu Llywodraeth Cymru ar gyfer darparwyr Ôl-16
  https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/canllawiau-hunanasesu-ar-gyfer-darparwyr-ol-16.pdf

- Cylchlythyr 018/2009 Adrodd ar gamymddwyn ac anghymwystra yn y gwasanaeth addysg
  https://llyw.cymru/addysg-a-sgiliau

- Cadw Dysgwyr yn Ddiogel
  https://llyw.cymru/cadw-dysgwyr-yn-ddiogel

# Gwneud cais i gael eich cynnwys ar restr Llywodraeth Cymru o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol (ISPIs) a'r trefniadau yn yr ISPI

## Gwybodaeth gyffredinol

| | |
|---|---|
| 1. Enw'r Perchennog | *Fel y cofrestrwyd gyda Tŷ'r Cwmnïau a/neu'r Comisiwn Elusennau* |
| 2. Gwefan (os yn berthnasol) | |
| 3. Cyfeiriad Cofrestredig (yn cynnwys y cod post) | |
| 4. Rhif ffôn | |
| 5. Cyfeiriad e-bost | |
| 6. Cyfeiriad yr ISPI arfaethedig os yw'n wahanol i'r uchod | *Cyfeiriad llawn, yn cynnwys y cod post a'r awdurdod lleol* |
| 7. A yw'r sefydliad yn gweithredu unrhyw sefydliadau arbenigol eraill yng Nghymru a Lloegr? (dilëir fel sy'n briodol) | Ydy Nac ydy<br><br>Os YDY, rhowch gyfeiriad llawn a manylion cyswllt pob sefydliad (heblaw'r un a enwir yn 6 uchod). |
| 8. Enw'r ISPI arfaethedig (os yw'n wahanol i 1) | |
| 9. Enw Pennaeth yr ISPI arfaethedig | |

**Statws Cyfreithiol**

| | |
|---|---|
| 10. Statws cyfreithiol y sefydliad (ticiwch fel sy'n briodol) | Cwmni cyfyngedig ☐<br>Elusen Gorfforedig ☐<br>Sefydliad corfforedig elusennol ☐<br>Partneriaeth ☐<br>Partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ☐<br>Unig Fasnachwr ☐<br>Arall (rhowch fanylion) ☐ |
| 11. Rhif cofrestru Tŷ'r Cwmnïau | |
| 12. Enwau cyfarwyddwyr/ ymddiriedolwyr y cwmni | *Fel y cofrestrwyd gyda Tŷ'r Cwmnïau* |
| 13. A oes gan y sefydliad statws elusennol? (dilëir fel sy'n briodol) | Oes Nac oes |
| 14. Os OES, rhowch enw'r elusen a rhif cofrestru'r Comisiwn Elusennau | *Fel y cofrestrwyd gyda'r Comisiwn Elusennau* |

**Gwybodaeth Ariannol**

| | | |
|---|---|---|
| 15. A ydych chi wedi cynnwys naill ai:<br>• Datganiadau ariannol wedi'u harchwilio ar gyfer y 2 flynedd diwethaf; neu<br>• Ar gyfer sefydliad nad yw wedi paratoi ei gyfres gyntaf o gyfrifon blynyddol hyd yma, cynllun busnes wedi'i gostio sy'n cynnwys 12 mis o ragolygon incwm a gwariant, rhagolwg o lif arian parod, mantolen ragamcanol ac esboniad o'r rhagdybiaethau a wnaed ar gyfer y ffigurau a ddarparwyd | Ydw | Nac ydw |

**Y Sefydliad**

| | |
|---|---|
| 16. A oes gan y sefydliad gorff llywodraethu/bwrdd ymddiriedolwyr ar gyfer ei ddarpariaeth cyn ysgol? | Oes Nac oes |
| 17. Os OES, nodwch:<br><br>Enw llawn y cadeirydd<br>Cyfeiriad preswyl<br>Cod post<br>Rhif ffôn | *Cyfeiriad llawn, rhif ffôn ac ati.* |
| 18. A fydd yr ISPI arfaethedig yn derbyn:<br>(ticiwch fel sy'n briodol) | Merched yn unig ☐<br>Bechgyn yn unig ☐<br>Bechgyn a merched ☐ |
| 19. A yw'r sefydliad yn bwriadu darparu llety preswyl yn y sefydliad neu yn rhywle arall o dan drefniadau a wneir gan y perchennog ar gyfer myfyrwyr? | Ydy Nac ydy<br><br>*Os YDY, rhaid darparu copi o dystysgrif cofrestru AGGCC.* |
| 20. Os YDY, a fydd y llety yn:<br>(ticiwch fel sy'n briodol) | Llety yn ystod y tymor ☐<br>Llety 52 wythnos ☐ |
| 21. Darparwch rif cofrestru AGC/CQC | |
| 22. Y dyddiad y mae'r sefydliad yn bwriadu dechrau derbyn myfyrwyr | DD/MM/BBBB |
| 23. Pa fathau o ADY y bydd yr ISPI yn darparu ar eu cyfer? | *Amlinellwch yn gryno y mathau o anawsterau a/neu anableddau dysgu y gallwch chi ddarparu ar eu cyfer.* |

**Trefniadau**

Trefniadau mewn ISPI sy'n gofyn am gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru

| | |
|---|---|
| 24. Ystod oedran arfaethedig y bobl ifanc a fydd yn mynychu'r ISPI arfaethedig | *Er enghraifft: 16-19, 16-25, 19-25* |
| 25. Mwyafrif arfaethedig y bobl ifanc y bydd yr ISPI arfaethedig yn darparu ar eu cyfer | |
| 26. Ai unigolyn yw'r perchennog?<br>(dilëir fel sy'n briodol) | Ie Nage |
| 27. Os IE, darparwch:<br>Ei gyfeiriad preswyl arferol<br>Rhif ffôn<br>Dyddiad geni<br>Rhif Yswiriant Gwladol | *Cyfeiriad llawn, rhif ffôn ac ati.* |
| 28. Ai'r Pennaeth yw'r perchennog? | Ie Nage |
| 29. Disgrifiwch y ddarpariaeth dysgu ychwanegol (DDY) a gynigir gan yr ISPI. | *Dylai gwybodaeth am yr anghenion dysgu ychwanegol y mae'r sefydliad yn bwriadu darparu ar eu cyfer gael eu cynnwys fel rhan o'r disgrifiad o'r DDY. Dylai'r wybodaeth a ddarperir fod yn glir ac yn gryno.* |

**Diogelu**

| | | |
|---|---|---|
| 30. A yw pob aelod o staff sy'n gweithio mewn gweithgarwch a reoleiddir sy'n ymwneud â phlant (16-18 oed) a/neu oedolion agored i niwed (18 oed a hŷn) wedi cael gwiriadau perthnasol fel sy'n ofynnol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd? | Ydyn | Nac ydyn |
| 31. A yw'r perchennog yn cytuno i weithredu yn unol â dogfen Llywodraeth Cymru '*Cadw Dysgwyr yn Ddiogel*' | Ydy | Nac ydy |
| 32. Os NAC YDY, rhowch resymau pam nad yw'n gweithredu yn unol â '*Cadw Dysgwyr yn Ddiogel*' | | |
| 33. Rhowch fanylion y person dynodedig[6] sy'n gyfrifol am reoli materion diogelu. | *Enw, rhif cyswllt a/neu gyfeiriad e-bost* | |

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Mae hefyd angen Datganiad o Ddiben sy'n disgrifio'r hyn y mae'r sefydliad yn bwriadu ei wneud ar gyfer y bobl ifanc y bydd yn eu derbyn a sut y bydd addysg a gofal o fewn yr addysg honno yn cael eu darparu. Gall y datganiad gynnwys dogfennau eraill megis prosbectws.

[6] Tudalen 23 o Cadw Dysgwyr yn Ddiogel

Darparwch y dogfennau canlynol a chadarnhewch eu bod wedi'u darparu trwy roi tic yn y bocs perthnasol: (**dim ond** ar gyfer y sefydliadau hynny **nad oes** ganddynt Gytundeb Ariannu gyda Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd y dylid cwblhau'r adran hon)

| | |
|---|---|
| Datganiad o Ddiben | ☐ |
| Copi wedi'i lofnodi o 'Ddatganiad Iechyd a Diogelwch y Darparwr' | ☐ |
| Tystysgrif Hanfodion Seiber (neu gyfwerth) | ☐ |
| Polisi iechyd, diogelwch a lles | ☐ |
| Polisi amddiffyn plant a pholisi diogelu oedolion agored i niwed | ☐ |
| Polisi gwrth-fwlio | ☐ |
| Polisi cwynion | ☐ |
| Polisi'r Gymraeg | ☐ |
| Polisi sicrhau ansawdd a gofal cwsmeriaid | ☐ |
| Polisi cyfle cyfartal | ☐ |
| Systemau wedi'u dogfennu ar gyfer rheoli a gwella ansawdd dysgu, gan gynnwys cylch hunanasesu ac adolygu blynyddol | ☐ |
| Polisi datblygu cynaliadwy | ☐ |
| Polisi ymweliadau addysgol | ☐ |

Rwy'n cadarnhau bod y wybodaeth rwyf wedi ei chyflwyno yn gywir a bod gen i awdurdod i gyflwyno'r cais hwn ar ran y sefydliad (ticiwch) ☐

**Llofnod:**

______________________________

**PRIFLYTHRENNAU:**

______________________________

**Dyddiad:**

______________________________

Anfonwch y ffurflen gais hon a'ch dogfennau ategol mewn e-bost i Post16ALN@gov.wales

*Bydd y wybodaeth ar y ffurflen hon ac yn y dogfennau ategol yn cael ei rhannu ag Estyn a fydd, fel rhan o'r broses ymgeisio, yn gwneud trefniadau i ymweld â'r sefydliad.*

# Cais i wneud newid i drefniadau

| | |
|---|---|
| Enw'r ISPI | *Enw llawn* |

**Diben y Cais**

| | |
|---|---|
| Nodwch y newid arfaethedig i drefniant rydych chi'n gwneud cais amdano<br><br>*(dilëir fel sy'n briodol)* | • Ystod oedran<br>• Nifer y bobl ifanc y mae'r ISPI yn darparu ar eu cyfer<br>• Y perchennog<br>• Y math o DDY a ddarperir gan yr ISPI. |

**Newid Arfaethedig i Ystod Oedran**

| | |
|---|---|
| Nodwch y newid arfaethedig i ystod oedran | |

**Newid Arfaethedig i Nifer y Bobl Ifanc y mae'r ISPI yn darparu ar eu cyfer**

| | |
|---|---|
| Nodwch y newid i nifer y bobl ifanc y mae'r ISPI yn darparu ar eu cyfer | |

**Newid Arfaethedig i Berchennog**

| | |
|---|---|
| Nodwch y newid Perchennog<br>(*Fel y cofrestrwyd gyda Tŷ'r Cwmnïau a/neu'r Comisiwn Elusennau)* | |
| Gwefan (os yn berthnasol) | |
| Cyfeiriad Cofrestredig (yn cynnwys y cod post) | |
| Rhif ffôn | |

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad e-bost | |
| Statws cyfreithiol y sefydliad<br><br>(ticiwch fel sy'n briodol) | Cwmni cyfyngedig ☐<br><br>Elusen Gorfforedig ☐<br><br>Sefydliad corfforedig elusennol ☐<br><br>Partneriaeth ☐<br><br>Partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ☐<br><br>Unig Fasnachwr ☐<br><br>Arall (rhowch fanylion) ☐ |
| Rhif cofrestru Tŷ'r Cwmnïau | |
| Enwau cyfarwyddwyr/ ymddiriedolwyr y cwmni | *Fel y cofrestrwyd gyda Tŷ'r Cwmnïau* |
| A oes gan y sefydliad statws elusennol?<br><br>(dilëir fel sy'n briodol) | Oes Nac oes |
| Os OES, rhowch enw'r elusen a rhif cofrestru'r Comisiwn Elusennau | *Fel y cofrestrwyd gyda'r Comisiwn Elusennau* |
| Ai unigolyn yw'r perchennog?<br><br>(dilëir fel sy'n briodol) | Ie Nage |
| Os IE, darparwch:<br><br>Ei gyfeiriad preswyl arferol<br>Rhif ffôn<br>Dyddiad geni<br>Rhif Yswiriant Gwladol | *Cyfeiriad llawn, rhif ffôn ac ati.* |
| Ai'r Pennaeth yw'r perchennog? | Ie Nage |

| | |
|---|---|
| | |

**Newid Arfaethedig i’r Math o DDY a ddarperir gan yr ISPI**

| Nodwch y Newid i’r Math o DDY |
|---|
| |

**Rhesymau dros y Newid(iadau) Arfaethedig y Gwneir Cais Amdanynt**

| Rhowch resymau clir a chryno dros unrhyw newidiadau arfaethedig rydych chi’n gwneud cais amdanynt, a chofiwch gynnwys gwybodaeth ategol lle bo angen. | |
|---|---|
| | |
| Nodwch y dyddiad y byddai angen i’r newid arfaethedig i drefniant ddod i rym | DD/MM/BB |